Capeli a addroddwyd i CAPEL

Ceisiadau Adeiladu a Chapeli Dan Fygythiad 2005

Rhestr 1

Bwriedir gwneud newidiadau sylweddol i'r capeli canlynol ond nid oedd cynlluniau manwl neu fanlyion pellach ar gael. Nid oedd modd felly ymateb yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio perthnasol. Mae'r rhestrau yn cyfeirio at y cyfnod o Hydref 2004 hyd ddiwedd Ionawr 2005.

Eglwys Bethel (safle), Cendl, Glyn Ebwy: datblygiad preswyl ar safle'r capel sydd wedi'i ddymchwel.

Capel Annibynol Gwynfryn, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin: codi to llechi traddodiadol yn lle gwaith cerrig ar y parapet blaen.

Nasareth (Bedyddwyr Saesneg), Cae Garw, Aberpennar, Rhondda Cynon Taf: newidiadau yn cynnwys mynediad i'r anabl.

Dewi Sant (Presbyteraidd), Pontypridd, Rhondda Cynon Taf: symud y seddau i gyd.

Capel y Drindod (Bedyddwyr), Trelewis, Merthyr Tudful: adeiladu cegin a thoiled i'r anabl.

Eglwys Genhadol St Ioan Fedyddiwr, Catbrook, Sir Fynwy: newid i ddefnydd preswyl.

Capel Carmel, Tresimwn, Bro Morgannwg: newid y capel a'r festri i ddefnydd preswyl.

Capel Byddin yr Iachawdwriaeth, Porth, Rhondda Cynon Taf: newid i fflatiau.

Capel Siloh (Cymraeg Unedig), Llandudno (rhestredig Gradd II): newidiadau i'r mynedfa ynghyd â threfniadau mewnol a darparu esgynfa ar gyfer yr anabl.

Capel Glynarthen, Glynarthen, Llandysul, Ceredigion: esgynfa i'r festri ar gyfer yr anabl.

Eglwys Ddiwigiedig Unedig Blaena, Blaenau Gwent: bras ganiatâd cynllunio am ddatblygiad preswyl.

Capel Tegid, Y Bala, Gwynedd (rhestredig Gradd II): gosod gwres canolog, toiled i'r anabl a symud seddau i ganiatau cadeiriau olwynion.

Neuadd Gwynfa, Caergybi, Ynys Môn: dymchwel cyn gapel y Methodistiaid Wesleaidd sydd erbyn hyn yn neuadd i Fyddin yr Iachawdwriaeth.

Capel y Cwm, Yr Ystog, Sir Drefaldwyn: newidiadau ac estyniad, yn cynnwys gareg (capel eisoes wedi'i newid?).

Eglwys y Bedyddwyr Saesneg, Caerfyrddin: darparu mynediad newydd a thwll grisiau i'r cefn, lifft mewnol a newidiadau i'r grisiau.

Eglwys Ddiwygiedig Unedig Berea, Nantyglo, Blaenau Gwent (rhestredig): Cymdeithas Islamaidd Imaan erbyn hyn: tynnu seddau a lloriau coed a effeithir gan bydredd sych.

Neuadd yr Efengyl, Abertridwr, Caerffili: dymchwel o bosibl.

Capel Salem, Ffordd Abergele, Bae Colwyn (rhestredig): mynediad i'r anabl a mynediad newydd i'r ochr ar gyfer Cymdeithas Antioch.

Canolfan Gristnogol Bethel, Hen Golwyn: dymchwel ac adeiladu 9 o fflatiau.

Eglwys Gatholig, Stryd Curre, Cwm, Glynebwy: newid i dŷ 4 ystafell wely a gareg.

Capel Peniel, Glan Conwy, Conwy: newid i fod yn drigfan.

Hen Gapel, Stryd Newbridge, Lacharn, Sir Gaerfyrddin: newid i fod yn drigfan (cais diwygiedig).

Capel Soar, Mynyddygarreg, Cydweli, Sir Gaerfyrddin: newid i fod yn drigfan.

Capel Ebeneser (Bedyddwyr), Stryd Crane, Cefn Mawr, Sir Ddinbych: wedi'i werthu yn ddiweddar.

Neuadd Gwrdd Byddin yr Iachawdwriaeth, Cefn Mawr, Wrecsam: wedi cau Hydref 2004; ar werth ar y farchnad.

Capel Methodist Black Park, Y Waun: bygythiad o gau ond yn chwilio am gefnogaeth (www.blackparkchapel.org.uk). Capel pwll glo; y glowyr a adeiladodd a thalodd am y capel.

Rhestr 2

Roedd copïau o blaniau a gwybodaeth arall ar gael yn yr achosion hyn ac roedd modd felly i Capel archwilio a rhoi sylwadau arnynt.

Capel Presbyteraidd Gwern-y-Nant, Llansanffraid: newid sympathetig i drigfan, yn cynnwys gostwng y llawr ac ymestyn tair ffenestr.

Cyn Gapel y Wesleaid, Ffordd Perrots, Hwlffordd, Sir Benfro: erbyn hyn yn siop hen bethau. Newid i 8 o fflatiau preswyl a dymchwel yr adeilad cyswllt. Awgrymwyd cadw'r adeilad cyswllt ar gyfer mynediad.

Capel Moriah, Dolwyddelan, Gwynedd (rhestredig Gradd II): newidiad da i 2 uned breswyl.

Capel yr Annibynwyr, Abergynolwyn, Gwynedd: newidiad sympathetig i ddau dŷ, ond amheuon am driniaeth y rhosffenestr a ffenestri upvc.

Capel Glanaber a Thŷ Capel, Llanuwchllyn, ger Y Bala: cynllun diwygiedig i ddymchwel y capel a chodi 2 uned breswyl.

Capel Bach, Llanbedr, Gwynedd: cynllun boddhaol i newid i drigfan un ystafell wely.

Eglwys Bentecostaidd Elim, Bae Colwyn: newidiad sympathetig i 12 o fflatiau sy'n cadw cymeriad yr eglwys.

Capel Hermon, Ffordd Ddwyrain Llanerch, Rhos, Bae Colwyn: dymchwel y capel presennol ac adeiladu capel newydd ac 8 o fflatiau preswyl. Cynigir y cynlluniau gan Ymddiriedolwyr y Capel.

Newyddion am Gapeli

Capel Coffa William Williams Pantycelyn, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin: llwyddwyd i gyrraedd y nod gyllidol ar gyfer adnewyddu a osodwyd am Ragfyr 2004 a'r gwaith wedi dechrau.

Capel y Bedyddwyr Cefn Bychan (1826), Ffordd Newbridge, Wrecsam (rhestredig): dychwelwyd y cerrig beddau a symudwyd yn anghyfreithlon ond mae'r capel a'r fynwent yn aflêr o hyd.

Capeli a adroddwyd i CAPEL

Ceisiadau Adeiladu a Chapeli dan Fygythiad

Rhestr 1

Bwriedir gwneud newidiadau sylfaenol i'r capeli canlynol, ond nid oedd cynlluniau manwl neu fanylion pellach ar gael. Nid oedd modd felly ymateb yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio perthnasol. Mae'r rhestrau yn cyfeirio at y cyfnod o Chwefror 2005 hyd ddiwedd Mai 2005.

Capel Egryn, Tal-y-Bont, Gwynedd: newid capel a festri i drigfan.

Capel Saron, Cowny, Llanddwyn, Croesoswallt: newid i drigfan.

Capel y Doc, Morfa, Llanelli: newid y capel i 8 o fflatiau ynghyd â mynedfa wydrog.

Capel Coffa, George Hill, Llandeilo: newid y capel i 4 o swyddfeydd.

Capel Pentwyn, Tymbl Uchaf, Llanelli: newid y cyn-gapel i drigfan.

Capel Pen Nebo, Penybontfawr, Croesoswallt: capel dan fygythiad – dim gwybodaeth ar gael.

Bethania (Eglwys Ddiwydiedig Unedig), Capel Uchaf, Sir Fycheiniog: penderfynwyd cau'r capel.

Ebeneser MC, Llwynbrwydrau, Llansamlet, Abertawe: cais i ddymchwel y capel a datblygiad preswyl ar y safle.

Cyn Eglwys Dafydd Sant, Stanley Road, Llanelli: cais cynllunio i newid i 5 trigfan cysylltiedig.

Rhestr 2

Roedd copïau o gynlluniau a gwybodaeth arall ar gael yn yr achosion canlynol ac roedd modd felly i Capel archiwlio a rhoi sylwadau arnynt. Aseswyd y gwaith cadwraethol a'r newidiadau a awgrymwyd yn achos Maesyronnen (Rhestredig Graddfa I) gan Mr Norman Chang.

Capel Tynycwm, Pontrhydfendigaid, Ceredigion: newid anghydymdeimladol i drigfan yn cynnwys mynedfa newydd, ffenestri dormer a Upvc. Cynlluniau wedi'u derbyn.

Eglwys Uniongred Groeg, Greek Church Street, Y Drenewydd, Caerdydd: cynlluniau diwygiedig i ehangu'r narthecs, creu porth bwaog a chlochdwr brics. Mae'r cynlluniau yn cydfynd â'r adeilad presennol.

Capel Peniel, Llanegryn, Gwynedd: newid i drigfan gyda swyddfa. Cynllun da ar wahân i ormod o oleuni yn y nenfwd oherwydd fod yr adeilad yn isel.

Capel Arenig, Arenig, Bala: newid sympathetig o gapel tun i dŷ gwyliau. Byddai hyn yn well na ddirywiad pellach yn arwain at ddymchwel yr adeilad.

Capel Saron, Tyn y Maes, Bethesda: newid capel i drigfan gydag estyniad. Cynllun anghydymdeimladol.

Capel Antioch (Annibynwyr), Crymych, Sir Benfro: newid capel i drigfan. Cynllun da ag eithrio 'decking feature' tu allan.

Capel y Bedyddwyr, Abersychan, Pontypŵl: darparu mynediad i anabl gyda rampiau. Dim gwrthwynebiad.

Capel MC Llanefydd, Sir Ddinbych: estyniad i Ystafell Bwyllgor, cyfleusterau etc gyda newidiadau mewnol. Dim gwrthwynebiad.

Capel MC Gleiniant, Trefeglwys, Caersws: newid capel a festri i ddau dŷ gyda mynediad ceir. Dim yn hollol sympathetig.

Capel Peniel (rhestredig), Carno, Caersws: newid capel a festri i drigfan a gweithdy/stiwdio. Cynllun da iawn gan yr Eglwys Bresbyteraidd.

Maesyronnen (Eglwys Ddiwygiedig Unedig), Y Clas ar Wy, Powys (Rhestredig, Graddfa I): gwaith cadwraethol tu mewn a tu allan yn cynnwys toi a draeniad. Ail-

greu agoriad drws gwreiddiol ar y mur gogleddol a chreu estyniad ar gyfer cyfleusterau. Gwaith o dan 'Ecclesiastical Exemption'. Dim gwrthwynebiad.

Capel Saeson, New Row, Ponthrydygroes, Ceredigion: cynllun i ailadeiladu Capel adfaeliedig Lisburne Mines, efallai fel rhan o Brosiect Ceredigion 'Ysbryd y Glowyr'. Cefnogodd Capel y cynnig gan Mr E W Hughes.

Newyddion am Gapeli

Hen Gapel, Llanuwchllyn, ger y Bala. Mae'r hen dŷ capel wedi'i adnewyddu ac ymestyn ac mae rhywun yn byw ynddo erbyn hyn. Gosodwyd plac ar y mur yn cofnodi mai dyna oedd man geni Michael D Jones a drefnodd yr aneddiad ym y Wladfa a dychwelodd i olynu'i dad fel Prifathro Coleg Annibynnol y Bala.

Capel Methodist Black Park, Y Waun: penderfynwyd cau capel y glowyr hwn er gwaethaf ymdrechion lleol i'w achub.

Capel Hebron, Cymer, Castell Nedd: yn dilyn gwybodaeth am gonsyrn am ddodrefn y capel (Rhestredig Graddfa II) sydd ar y farchnad ar hyn o bryd, cysylltwyd â CADW.

Capel y Bedyddwyr, Newbridge Rd, Cefn Bychan, Wrecsam: caniatâd wedi'i dderbyn i newid yr adeilad rhestredig hwn i dŷ. Dychwelwyd i'r safle y cerrig beddau a symudwyd yn anghyfreithlon ac maent i'w osod o gwmpas y safle yn ôl y cynllun a gyntunwyd.

Capeli a adroddwyd i CAPEL

Ceisiadau Adeiladu a Chapeli dan Fygythiad

Rhestr 1

Bwriedir gwneud newidiadau sylweddol i'r capeli canlynon, ond nid oedd cynlluniau manwl neu fanylion pellach ar gael. Nid oedd modd felly ymateb yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio perthnasol. Mae'r rhestrau yn cyfeirio at y cyfnod o Fai 2005 i ddiwedd Awst 2005.

Capel Coffa, Cyffordd Llandudno, Conwy: darparu esgynfa a thoiledau ar gyfer yr anabl.

Capel Bethel, Llanfachredd, Gwynedd (rhestredig): newid y capel i fod yn rhan o'r tŷ capel drws nesaf.

Capel Moriah, Dolrhedyn, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd: to gwydrog yn y cefn er mwyn creu cyfleusterau a chegin newydd.

Capel Beulah, Beulah, Castell Newydd Emlyn, Ceredigion: gwella mynediad ar gyfer yr anabl trwy'r festri.

Park (Eglwys Ddiwygiedig Unedig), Murray Street, Llanelli: newid yr eglwys i fod yn siop ddodrefn (er mwyn cadw'r adeilad yn y tymor hir).

Capel Greenfield y Bedyddwyr, Murray Street, Llanelli: 2 ffenestr i ddod yn ddrysau er mwyn darparu esgynfa ar gyfer yr anabl.

Ysgol Sul Brynhyfryd, Gelli-aur, Caerfyrddin: newid i drigfan gydag estyniad a garej ar wahân.

Rhestr 2

Roedd copïau o'r cynlliniau a gwybodaeth arall ar gael yn yr achosion hyn ac roedd modd felly i Capel archiwlio a rhoi sylwadau arnynt.

Capel Libanus, Bute Street, Treherbert, Rhondda Cynon Taf (rhestredig Graddfa II): adroddiad gan beirianwyr adeiladu am ddiffygion. Mae ymdrechion ynghynt i ailadeiladu tu blaen y capel wedi methu. Heb ei ddefnyddio am 12 blynedd. Mae'n debyg y bydd yn cael ei ddymchwel.

Capel Bethel, Llanfair, Harlech: newid i drigfan. Cynllun da. Mae'r Neuadd Goffa ar ochr arall y ffordd ac ni chynigwyd defnydd arall o'r capel.

Carmel, Capel y Bedyddwyr, Pontrhydfendigaid, Ceredigion: rhoi 5 ffenestr Upvc gwydriad dwbl yn lle'r rhai presennol gyda bariau Sioraidd i gydfynd ag arddull yr adeilad.

Capel Rhyd-y-meirch, Cwm Penmachno, Gwynedd: newid i drigfan gyda lle i ymwelwyr, caffi/lle bwyta ac oriel/stiwdio. Cynllun da fydd yn cadw'r capel.

Seion, Capel y Bedyddwyr, Brook Street, Llanfyllin: newid i drigfan gyda mynediad newydd a goleuadau ychwanegol yn y nenfwd. Cynllun sympathetig.

Newyddion am Gapeli

Capel Saeson, New Row, Pontrhydygroes, Ceredigion: gwrthodwyd cynllun i ailadeiladu Capel Lisburne Mines oherwydd y byddai'n cael ei ystyried yn adeilad newydd mewn lleoliad cefn gwlad.

Eglwys Cenhadol Knolton (rhestredig Graddfa II), Bryn, Owrtyn, Wrecsam: cynlluniau diwygiedig wedi'u caniatau ar gyfer y capel tun hwn a niweidwyd gan tân. Ar un adeg bwriedwyd symud y capel i Sain Ffagan.

Capel CM Gleiniant, Trefeglwys, Caersws: mae Cyngor Sir Powys wedi gofyn am gais diwygiedig i wella mynediad a pharcio . Mae'r newidiadau i'r capel a'r festri fel y maent yn ymddangos yn y rhestr flaenorol.

Capel Hermon, Rhos, Bae Colwyn: cynlluniau wedi'u cytuno am gapel newydd ac 8 fflatiau dwy ystafell wely yn lle'r capel presennol.